**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Cynllunio |
| **DYDDIAD** | 4 Ebrill 2016 |
| **TEITL** | Cynnig i greu Llwybr Cyhoeddus yng Nghymuned Y Felinheli o dan Adran 26 Deddf Priffyrdd 1980, dros ddarn o dir sydd yn rhan o eiddo i Westy Port Dinorwig, Y Felinheli i hwyluso Prosiect Llwybr Arfordir Cymru a buddiannau trigolion yr ardal. |
| **PWRPAS** | I dderbyn Cymeradwyaeth y Pwyllgor i baratoi Gorchymyn Creu Adran 26.<br>Derbyn awdurdod y Pwyllgor i gyflwyno'r gorchymyn i'r Arolygaeth Gynllunio benderfynu arno pe bai'r Cygnor yn derbyn gwrthwynebiad i'r gorchymyn na ellir ei ddatrys. |
| **AWDUR** | Gareth Jones<br>Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd |
| **ARGYMHELLIAD** | Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i baratoi Gorchymyn Creu Adran 26, ai fod yn cael ei gyflwyno i'r Arolygaeth Gynllunio benderfynu arno os bydd y cyngor yn derbyn gwrthwynebiad i'r gorchymyn na ellir ei ddatrys. |

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn o dan Adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i lunio Gorchymyn Creu os ydynt yn ystyried bod angen llwybr troed neu lwybr ceffyl yn eu hardal.

1.2 Unwaith y mae angen wedi'i sefydlu, rhaid i'r awdurdod ystyried:

- y graddau y byddai'r llwybr troed neu'r llwybr ceffyl yn ychwanegu at gyfleustra neu fwynhad cyfran sylweddol o'r cyhoedd, neu'n ychwanegu at gyfleustra trigolion yn yr ardal.
- yr effaith y byddai ei greu yn ei gael ar hawliau'r bobl sydd â diddordeb yn y tir.

1.3 Mae'r broses o lunio Gorchymyn Creu yn cynnwys cyfnod o ymgynghori statudol lle mae cyfle gan bartïon i ddarparu sylwadau yn cynnwys sylwadau o gefnogaeth neu wrthwynebiad. Hefyd, mae'r broses yn cynnwys darpariaeth i dalu iawndal i'r tirfeddiannwr.

1.4 Os derbynnir gwrthwynebiad i'r gorchymyn sydd ddim yn cael ei dynnu'n ôl yna gall y Cyngor gyfeirio'r mater i sylw'r Arolygaeth Gynllunio am ddyfarniad.

1.5 Pwrpas yr adroddiad yma yw derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor i'r camau canlynol :

a. I baratoi a chyflwyno gorchymyn creu Adran 26 ,Deddf Priffyrdd 1980
b. Os derbynnir gwrthwynebiad i'r Gorchymyn na ellir ei ddatrys i roi'r mater i sylw'r arolygaeth gynllunio am ddyfarniad.

**2.0 Y cynnig**

2.1 Bwriedir creu Llwybr Cyhoeddus a fydd yn croesi oddeutu **8m** o dir sy'n rhan o eiddo Gwesty Port Dinorwig yng Nghymuned Y Felinheli. Byddai creu'r llwybr yma yn cysylltu llwybr cyhoeddus presennol rhif 22 Felinheli a llwybr cyhoeddus sydd wedi ei gytuno mewn egwyddor gyda chymdogion yr eiddo dan sylw.

2.2 Byddai'r llwybr yn sicrhau hawliau cyfreithiol i'r cyhoedd gael mynediad ar droed at ystâd Glan Faenol o gyfeiriad Y Felinheli. Yn ogystal, byddai'r llwybr newydd yn cynnig

gwelliant mawr i'r Llwybr Arfordir yn ardal Arfon. Gellir gweld cynllun o'r bwriad fel **Atodiad 1.**

**3.0 Yr angen am y llwybr**

3.1 Yn ardal Arfon, un o'r prif rwystrau i gael llwybr di-dor yn dilyn Y Fenai rhwng Caernarfon a Bangor, oedd diffyg mynediad cyhoeddus naill ben i Ystâd Glan Faenol, sydd ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r llwybr dan sylw yn allweddol i gwblhau'r llwybr arfordir rhwng Y Felinheli a Bangor.

3.2 Yn 2009, dechreuodd swyddogion y Cyngor negodi cytundebau â thirfeddianwyr yn ardal Marina'r Felinheli ac yn ardal Treborth. Erbyn gwanwyn 2015 roedd cytundebau mewn lle neu wedi eu cytuno gyda phob un perchennog ag eithr Perchennog Gwesty Port Dinorwig.

3.3 Ymdrechwyd i sicrhau cytundeb gwirfoddol ond yn anffodus rhaid adrodd nad yw'n ymddangos bod modd sicrhau cytundeb ac os am wireddu'r cynllun rhaid ystyried dilyn trefn Gorchymyn A26 sef creu drwy orfodaeth. Mae cynllun **Atodiad 2** yn dangos lleoliad y darn dan sylw yng nghyd-destun ardal y Marina.

3.4 Mae angen y llwybr am y rhesymau a ganlyn:

- Dyma'r unig ran sydd ar goll mewn llwybr di-dor arfaethedig, 4.5km o hyd rhwng Y Felinheli a Threborth.

- Bydd y llwybr yn adnodd i gymunedau o fewn ardal eang gan gynnwys Y Felinheli, Penrhosgarnedd , Bangor a Chaernarfon.

- Byddai creu llwybr di-dor sy'n dilyn y Fenai rhwng Y Felinheli a Threborth yn ychwanegu'n sylweddol at safon y Llwybr Arfordir yng Ngwynedd ac yn welliant mawr ar y llinell gyfredol sy'n rhedeg cyfochrog â ffyrdd prysur yr A4087 a'r B4547 , dangosir hyn yn **Atodiad 3**

**4. Opsiynau amgen**

4.1 Mae ystyriaeth wedi ei roi i opsiwn arall sef cadw at Ffordd Glyder o amgylch gwesty Port Dinorwig. Rwyf o'r farn nad yw'r opsiwn yma yn addas oherwydd:

- Golyga y buasai defnyddwyr y llwybr yn gorfod rhannu'r ffordd gul gyda cherbydau.
- Mae'r ffordd yn gallu bod yn brysur oherwydd mai hon yw'r unig ffordd i mewn ac allan o'r stad .
- Mae llethr ger y gwesty yn serth ac yn anaddas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, coets etc.

Gweler **Atodiad 4**

**5. Barn yr Aelod lleol a chefnogaeth cyrff eraill**

***Sian Gwenllian Aelod lleol Felinheli.***

*Rwyf yn llwyr gytuno a'r angen i ddefnyddio Adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980 i lunio Gorchymyn Creu yn yr ardal benodol dan sylw. Dyma'r darn olaf o'r jig-so cymhleth sy'n cael ei roi at ei gilydd i greu darn newydd o Lwybr yr Arfordir drwy'r Felinheli. Mae hi wedi bod yn broses ddyrys, gyda sawl rhwystr ar y ffordd ond rwyf 100% gefnogol i ymdrechion dygn y swyddogion i gael y maen i'r wal. Yn anffodus, mae'n rhaid defnyddio Adran 26 fel yr unig opsiwn sydd ar ôl bellach ar gyfer sicrhau'r darn bychan, olaf o dir.*
*Byddai'r llwybr yn ymestyn y rhwydwaith llwybrau lleol ac yn galluogi'r gymuned leol i gael hawliau cyfreithiol i gael mynediad at ystâd Glan Faenol o gyfeiriad Y Felinheli. Mae rhain wedi eu colli yn y blynyddoedd diweddar, er fod hanes hir o gysylltiad rhwng y stad a'r pentref. Mae llwybrau cyhoeddus yn bwysig iawn i'r gymuned ac fe gynhyrchwyd map*

*ohonyn nhw yn ddiweddar sydd wedi profi'n boblogaidd iawn gyda phobl leol, twristiaid a busnesau lleol.*

*Yn ogystal, byddai'r llwybr newydd yn cynnig gwelliant mawr i'r Llwybr Arfordir yn ardal Arfon gan roi hwb bellach i'r economi leol ac yn ychwanegu at greu cenhedlaeth iach o bobl. Mae'r Llwybr yn denu ymwelwyr i'r ardal sy'n gwario yn lleol ac mae'n denu pobl leol i ardaloedd ger yr arfordir gan wella ansawdd eu bywydau.*

*Mawr obeithiaf y bydd y Pwyllgor yn cytuno a'r argymhelliad ac y cawn wireddu'r cynllun yn fuan.*

**Cyfoeth Naturiol Cymru.**

*Mae polisi Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi y dylai'r Llwybr fod mor agos i'r Arfordir â phosib ac i , gan sicrhau dyfodol parhaol y Llwybr, gyda mynediad parhaol i'r cyhoedd .Mae hefyd yn bolisi Cyfoeth Naturiol Cymru i osgoi ffyrdd sydd yn cael ei rhannu gyda cherbydau, oni bai fod yna ddim opsiwn amgen addas*

*Wrth ystyried yr uchod mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno gyda Chyngor Gwynedd mai'r Llwybr arfaethedig yw'r opsiwn mwyaf addas. Rydym yn ffafrio creu llwybrau drwy gytundeb yn amlwg ,ond os nad yw hyn yn bosibl rydym yn cefnogi creu trwy orchymyn rhan 26.*

**6.0 Casgliadau**

6.1 Cyfeiriwyd yn rhan 3.2 o'r adroddiad at yr ymdrech sydd wedi ei roi i geisio sicrhau mynediad cyhoeddus drwy ardal y Marina dros yn agos i 8 mlynedd. Mae amgylchiadau a chymhlethdod perchnogaeth eiddo wedi golygu bod y broses hyd yma wedi bod yn araf ac ar adegau yn rhwystredig. Rydym bellach yn agos i gyrraedd y nod ag eithr y llain 8m, fel ym mhob achos tebyg y dymuniad yw ceisio sicrhau hawliau mynediad cyhoeddus drwy gytundeb, yn anffodus credaf nad oes dewis bellach ond i ddilyn trefn gorchymyn A26.

6.2 Cefnogir y bwriad gan Gyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn rhan allweddol o'r Llwybr Arfordir Cenedlaethol ac maent wedi clustnodi cyllid i wneud y gwaith sy'n angenrheidiol i greu'r llwybr. Byddai creu'r llwybr troed yn dod â manteision sylweddol o ran darparu cyswllt deniadol, diogel a chyfleus i ddefnyddwyr y Llwybr Arfordir cenedlaethol ond beth sydd yr un mor bwysig yw'r budd o ran hamdden a mwynhad a ddaw i'r gymuned leol gan gynnwys rhieni gyda phramiau, defnyddwyr cadair olwyn ag ati.

6.3 Mae'r Cyngor yn bwriadu dilyn y drefn statudol wrth greu'r Gorchymyn creu o dan Adran 26 Deddf Priffyrdd 1980 a gellir cadarnhau bod gofynion y ddeddf wedi eu bodloni.

**7.0 Argymhelliad**

7.1 Gofynnir i'r pwyllgor gymeradwyo

a. Cyflwyno Gorchymyn Creu Adran 26 er mwyn sicrhau mynediad cyhoeddus dros 8m o dir ym mherchnogaeth Gwesty Plas Port Dinorwig, Y Felinheli.

b. Os derbynnir gwrthwynebiad sydd ddim yn cael ei dynnu'n ôl bod y Cyngor yn ei gyflwyno i'r Arolygaeth Gynllunio am ddyfarniad.

**Papurau Cefndir:**

Atodiad 1: Cynllun y llwybr sy'n destun adran 26.
Atodiad 2: Cynllun yn dangos y llwbr yng nghydestun y marina.
Atodiad 3: Cynllun sy'n dangos y llwybr cyfredol (Llwybr Arfordir Cymru).
Atodiad 4: Cynllun Llwybr amgen